



# GwE

## Bwletin TGAU 2015 / PISA

### Cyflwyniad

Fel paratoad ar gyfer y TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg a Mathemateg ym mis Medi 2015 (a Gwyddoniaeth yn 2016), rhoddodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r pedwar Consortia rhanbarthol wneud cais am gyllid; roedd cais GwE yn llwyddiannus a chafodd cyllid ei gadarnhau am flynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16.

Hwn yw ail fwletin 'TGAU 2015 / PISA' GwE, a'r bwriad yw gadael i ysgolion wybod beth yw'r datblygiadau hyd yma, datblygiadau'r dyfodol o ran prosiect 'TGAU 2015 / PISA' ynghyd â datblygiadau cysylltiedig eraill.

### Datblygiadau hyd yma

'Ysgolion Arweiniol' y rhanbarth yn y pedwar pwnc craidd yw:

- **Saesneg: Ysgol Bryn Eliau** (Ymarferwr Arweiniol: **Louise Wallace**)
- **Mathemateg: Ysgol Eirias** (Ymarferwr Arweiniol: **Zoe Evans**)
- **Cymraeg: Clwstwr Gwynedd (Ysgol Botwnnog/Ysgol Tryfan/Ysgol Dyffryn Ogwen)** (Ymarferwr Arweiniol: **Tegwen Llwyd / Esyllt Maelor / Cheryl Roberts / Jeni Lyn Morris / Dafydd Roberts**)
- **Gwyddoniaeth: Ysgol yr Alun** (Ymarferwr Arweiniol: **Andy Rees**)

Er sicrhau bod deunyddiau Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys dimensiwn Cymreig, mae Ysgol Glan Clwyd yn gweithio gydag Ysgol Eirias o ran Mathemateg, tra bo ysgolion Môn yn gweithio gydag Ysgol Alun o ran Gwyddoniaeth.

Bellach mae pob 'Ysgol Arweiniol' wedi cyflwyno'r set gyntaf o adnoddau/deunyddiau drafft. Maent yn cael eu craffu ar hyn o bryd fel rhan o'r broses Sicrhau Ansawdd.

Mae'r pedwar 'Ymarferwr Arweiniol' o'r 'Ysgolion Arweiniol' (Zoe Evans, Louise Wallace, Andy Rees a Dafydd Roberts) hefyd wedi bod yn ymwneud â dylunio 'Platfform' ar gyfer gosod yr adnoddau/deunyddiau arno. Mae GwE wedi comisiynu dylunio'r 'Platfform', sy'n bodloni gofynion yr 'Ymarferwyr Arweiniol' a'r 'Ysgolion Arweiniol'. Mae'r 'Platfform' yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Isod, mae adroddiadau byr gan yr ‘Ysgolion Arweiniol’ ar y datblygiadau hyd yma yn y pynciau craidd:

### **Cymraeg:**

Mae gohebiaeth a chyfarfodydd cyson wedi bod rhwng y tair ysgol (Botwnnog/Dyffryn Ogwen/Tryfan) i drafod y cynlluniau gweithredu ac i ymglyfarwyddo â'r deunyddiau PISA. Yn dilyn hyn, cynhyrnod y tair ysgol dri ymarfer yr un yn null profion PISA ynghyd â chynlluniau marcio. Mae'r rhain i'w defnyddio gyda Blwyddyn 9. Treialwyd dau o'r rhain gan y tair ysgol ( profion gan wahanol ysgolion er mwyn gallu cymharu data gan yr un disgyblion ac asesu cysondeb safon y profion). Bydd data gan tua 200 o blant ar gyfer 6 phrawf ar gael i'w ddadansoddi. Y bwriad yw cynnal treial tebyg wedi defnyddio'r deunydd hyfforddi gyda'r un disgyblion i weld a oes cynnydd. Bwriedir defnyddio'r ymatebion hyn i greu deunydd rhyngweithiol yn enghreifftio'r math o gwestiynau mae'r disgyblion yn llwyddo i'w hateb a'r math o gwestiynau sy'n fwy anghyfarwydd. Bydd fideo byr yn dangos ymateb disgyblion i'r tasgau hefyd. Bydd yr enghreifftiau ysgrifenedig ar gael erbyn diwedd y tymor hwn ac mae trafodaethau wedi bod rhwng Cynnal a Dafydd Roberts i lunio'r adnodd rhyngweithiol ddechrau'r flwyddyn. Rydym hefyd wedi cychwyn trafodaethau ar y math o ddeunyddiau llawr dosbarth fydd eu hangen ar gyfer datblygu sgiliau ymhellach. Rydym wedi cychwyn datblygu'r rhain, ond heb eu treialu eto.

### **Saesneg:**

Roedd ffocws cychwynol Ysgol Bryn Elian ar ddarllen Fframwaith Darllen PISA, ei ddeall a'i roi mewn cyd-destun wrth ddisgwyl cyhoeddi'r fanyleb newydd ar gyfer Saesneg TGAU. Dechreuodd y gwaith wedyn ar ddatblygu strategaeth darllen a ellid ei defnyddio i gefnogi sgiliau darllen y fframwaith PISA. Mae adnoddau wedi'u creu i gefnogi defnyddio'r strategaeth darllen; mae'r rhain yn cynnwys llyfr gwaith, dau fideo a nodiadau addysgu. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu gweithgareddau siarad a gwrando ac rydym wedi creu adnoddau ar gyfer 'trafodaeth grŵp'. Yn dilyn cyhoeddi'r fanyleb, mae tri gweithgaredd prawf ddarllen wedi'u datblygu hefyd. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu adnoddau i gefnogi addysgu darllen ac ysgrifennu.

### **Mathemateg:**

Mae staff Ysgol Eirias wedi mynychu nifer o Gynadleddau a chyfarfodydd er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'n dysgwyr ac, felly, o'n hathrawon. Rydym wedi buddsoddi llawer o amser yn dadansoddi'r manylebau ar gyfer y ddau TGAU. Yn dilyn y meini prawf y cytunwyd arnynt mewn cyfarfodydd, mae tair set o wersi ac adnoddau wedi'u datblygu. Mae staff o Ysgol Eirias ac Ysgol Glan Clwyd wedi cyfarfod i drafod y gwersi hyn a gwnaed trefniadau i'r adnoddau gael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg wedi'u hanfon ymlaen i GwE ar gyfer eu harchwilio. Bu Ysgol Eirias yn ymwneud â chynllunio'r Gynhadledd Mathemateg Genedlaethol ym mis Ionawr 2015 a byddwn yn cynnal gweithdy o'r enw '*Putting Life Back into Maths*'.

### **Gwyddoniaeth:**

Mae tim o 6 aelod o staff yr Alun wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y tymor i ddatblygu adnoddau ar gyfer addysgu Gwyddoniaeth. Mae hyn wedi cynnwys dau weithdy diwrnod a chyfarfodydd tîm wythnosol. Mae ystod o brofiadau ac arbenigedd pynciol oddi mewn i'r tîm gan gynnwys athrawon arbenigol ym maes Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Roedd y ffocws tymor yma ar greu set o adnoddau ar gyfer Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Y llinyn aur sy'n cysylltu'r adnoddau yw llythrennedd gwyddonol a gallu myfyrwyr i gael mynediad i gwestiynau arholiad a'u dehongli. Mae'r adnoddau wedi'u llunio yng nghyd-destun maes llafur cyfredol CBAC ar gyfer TGAU, ond byddai'r ystod a'r sgiliau a ddatblygir yn berthnasol i athrawon sy'n addysgu maes llafur unrhyw fwrdd arholi. Mae pob set o adnoddau yn cynnwys: cynllun gwrs y gellir cyfeirio'n sydyn ato, arweiniad estynedig ar y wers ac adnoddau ychwanegol ar gyfer dysgu ac addysgu,

sy'n cynnwys gweithgareddau i ddechrau/cloi'r wers, cwestiynau arholiad, taflenni gwaith, cyflwyniadau PowerPoint a lincs i glipiau fideo fel bo'n berthnasol. Bydd yr adnoddau a gynhrychir yn cynnwys gweithgareddau a syniadau ar gyfer addysgu y gellir eu defnyddio mewn themâu eraill. Mae'r gweithgareddau yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau mewn nifer o feysydd gan gynnwys ysgrifennu, dehongli cwestiynau arholiad, echdynnu gwybodaeth o destun a diagramau, dehongli graffiau a gosod targedau personol.

## Datblygiadau'r dyfodol

Yn ystod mis Chwefror, cynhelir y gweithdai 'ton' cyntaf ar gyfer pob un o'r pynciau craidd yn y tri hwb (Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych a Fflint/Wrecsam).

Mae 'Platfform' ar gyfer gosod yr adnoddau/deunyddiau yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd; hyderir y bydd y 'Platfform' yn 'fyw' yn fuan ym mis Chwefror.

Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol ym mis Mawrth, sy'n cael ei threfnu gan GwE, er mwyn amlygu'r arfer dda fel ymateb i agenda PISA. Y prif siaradwr fydd Dr David Hyerle o America, sy'n arbenigwr ym maes 'mapiau meddwl'. Rhan annatod o'r Gynhadledd fydd 'gweithdai' i amlygu arfer dda mewn Dysgu ac Addysgu mewn perthynas ag agenda PISA.

## Datblygiadau eraill

### 1) Bagloriaeth Cymru:

Mae GwE yn cefnogi ysgolion wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig ym mis Medi 2015. Mae pedwar gweithgor is-ranbarthol ac mae pob grŵp yn datblygu adnoddau/deunyddiau/pecynnau cymorth ar gyfer un o'r tair 'Her' (*Her y Gymuned / Her Dinasyddiaeth Fyd-eang / Her Menter a Chyflogadwyedd*) a'r Prosiect Unigol. Yna bydd yr adnoddau yn cael eu rhannu ag ysgolion yn ystod tymor yr haf. Yn dilyn mae manylion am ddatblygiadau gweithgorau Bagloriaeth Cymru GwE :

- Cynhaliwyd cyfarfod ar gyfer y 4 gweithgor ar 24 Tachwedd 2014
- Sefydlwyd blaenoriaethau a thargedau a chytunwyd ar ddyddiadau allweddol. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu gan yr ymarferwyr arweiniol ar gyfer cwblhau'r holl ddeunyddiau.
- Bydd pob gweithgor yn datblygu cynllun gwaith ar gyfer un Her neu'r Prosiect unigol (ar gyfer CA4 ac ôl-16) gan ymgorffori datblygiad sgiliau ac asesu.
- Bydd yr holl ddeunyddiau a gynhrychir yn cael eu cyfieithu
- Bydd yr holl ddeunyddiau addysgu a gynhrychir yn cael eu cyflwyno a'u rhannu yn ystod Cynhadledd Ranbarthol (mis Mehefin 2015). Bydd manylion pellach yn cael eu hanfon yn nes ymlaen (a byddant ar gael hefyd ar 'Blatfform').

Mae GwE wedi gwneud cais am cyllid ychwanegol i Llywodraeth Cymru i gefnogi'r canlynol:

- Sefydlu grŵp BAC Rhanbarthol – i gynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp BAC Awdurdod – gan rhoi'r cyfle i grwpiau All rannu arferion da ac i gynllunio datblygiadau pellach mewn ffordd effeithiol ar draws y rhanbarth. Bydd 'Rhwydwaith 14-19 yn cyd-gysylltu hyn, a'r bwriad yw cynnal y cyfarfod cyntaf yn hwyr ym mis Ionawr, 2015.

- Sefydlu grwpiau ‘Gorchwyl a Gorffen’ (yn cynnwys grŵp ôl-16) i adnabod adnoddau priodol ar gyfer pob un o’r 4 sgil ac sydd yn addas ar gyfer L1, L2 a L3.
- Cyfrannu tuag at gostau rhyddhau Cyd-Gysylltwyr BAC i fynychu’r Gynhadledd Rhanbarthol yn nhymor yr Haf.

## 2) Cynhadledd Mathemateg:

Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu cynhadledd ar gyfer pob un sy’n arwain ar fathemateg yn ysgolion uwchradd Cymru, a cynhelir hyn yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar 28 Ionawr 2015. Nod y gynhadledd yw i athrawon arweiniol mathemateg gyfarfod a rhannu adnoddau â’u cydweithwyr, a chlywed gan arweinwyr yn y maes. Ymhlith y prif siaradwyr fydd:

- Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Jenny Bradshaw o’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sy’n arwain ar y tîm asesu PISA rhyngwladol
- yr Athro Malcolm Swan o Brifysgol Nottingham, arbenigwr sy’n arwain ar lwyfan byd-eang yn y maes rhesymu mathemategol.

Bydd cynrychiolwyr o Estyn a CBAC hefyd yn rhoi cyflwyniadau a bydd amrywiaeth o weithdai yn cael eu cynnal. Bydd cynrychiolaeth o GwE yn mynychu’r Gynhadledd ac yn rhaedaru prif negeseuon yn ôl i ysgolion y rhanbarth. Er mwyn cofrestru ar gyfer y gynhadledd:

<https://mathematicsforlifeconference2015.eventbrite.co.uk/>

## 3) Gweithredu Cam 1 o’r adolygiad o’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu :

Yn ystod tymor y gwanwyn 2015 bydd cefnogaeth ar gael i ysgolion y rhanbarth i baratoi ar gyfer gweithredu Cam 1 o’r Rhaglenni Astudio Diwygiedig, a fydd yn statudol ym mis Medi 2015. Mae GwE am barhau i ddefnyddio ysgolion ac ymarferwyr blaenllaw i arwain y gwaith yma, a darperir cefnogaeth ar gyfer y Rhaglenni Astudio Cymraeg/Saesneg/Llythrennedd gan Ysgol Dyffryn Conwy, a chefnogaeth ar gyfer Mathemateg/Rhifedd gan Ysgol John Bright. Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu â Phenathiaid yn gynnar yn y tymor newydd.

## 4) Cwestiynau yn ôl meini prawf PISA:

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu 90 cwestiwn newydd sydd bellach ar gael ar ‘Hwb’ er mwyn i fyfyrwyr ac athrawon roi cynnig ar gwestiynau yn ôl meini prawf PISA mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a darllen. Mae’r cwestiynau yn gyfan gwbl ar gyfrifiadur. Ewch i wefan ‘Hwb’ i roi cynnig ar y cwestiynau hyn:

<https://hwb.wales.gov.uk/>

## 5) Profion PISA NFER:

Bydd 30 o ysgolion uwchradd ar draws Gogledd Cymru yn cymryd rhan yn asesiadau PISA NFER yn ystod tymor y gwanwyn. Bydd y profion yn para tua thair awr a hanner ac yn asesu darllen, Gwyddoniaeth a Mathemateg (fel y brif astudiaeth PISA) yn ogystal â holiadur myfyrwyr. Ni fydd y profion yn dod i farn ar berfformiad disgyblion unigol ond yn hytrach yn gyfle i gasglu gwybodaeth gwella ysgol ar gyfer yr ysgol gyfan.

## Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

- Gweithdai 'TGAU 2015 /prosiect PISA' :**

Gofynnir i Benaethiaid Adran y pedwar pwnc craidd nodi dyddiad y gweithdai perthnasol yn eu dyddiadur

<b>Cymraeg:</b>				
Dyddiad	Ysgol Arweiniol:	Hwb:	am/pm:	Lleoliad:
9.2.15	Ysgolion Botwnnog / Dyffryn Ogwen / Tryfan	Gwynedd/Môn	9.15-12.15	Celtic Royal Hotel, Caernarfon, Gwynedd
		Conwy/Dinbych/Wrecsam/ Fflint	12.30-3.30	Glasdir, Llanrwst, Conwy

<b>Saesneg:</b>				
Dyddiad:	Ysgol Arweiniol:	Hwb:	am/pm:	Lleoliad:
10.2.15	Ysgol Bryn Elian	Conwy/Dinbych	9.15-12.15	Glasdir, Llanrwst, Conwy
		Wrecsam/Fflint	12.30-3.30	Glasdir, Llanrwst, Conwy
24.2.15	Ysgol Bryn Elian	Gwynedd/Môn	9.15-12.15	Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd

<b>Mathemateg:</b>				
Dyddiad:	Ysgol Arweiniol:	Hwb:	am/pm:	Lleoliad:
11.2.15	Ysgol Eirias	Wrecsam/Fflint	9.15-12.15	Beaufort Park, Yr Wyddgrug, Fflint
	Ysgol Glan Clwyd	Gwynedd/Môn (cyfrwng Cymraeg)	12.30-3.30	Plas Menai, Caernarfon, Gwynedd
25.2.15	Ysgol Eirias	Conwy/Dinbych	9.15-12.15	Optik, Llanelwy, Dinbych

am: 9.15 -12.30 - darperir cinio ar ddiwedd y gweithdy

pm: 12.15 -3.30 - darperir cinio cyn y gweithdy

### Bydd rhagor o fanylion am y 'Gweithdai' yn cael eu hanfon i ysgolion ym mis Ionawr

Er mwyn ysgafnhau pwysau rhyddhau athrawon ar ysgolion, a gan nad yw'r TGAU Gwyddoniaeth newydd yn cael ei gyflwyno tan Medi 2016, gohirwyd y gweithdai Gwyddoniaeth tan tymor yr Haf.

- Cynhadledd Genedlaethol:  
dydd Iau 26 Mawrth 2015, 'Venue Cymru', Llandudno**

Am ragor o fanylion am wybodaeth sydd yn y bwletin hwn, cysylltwch â :

Peter Maddocks, Uwch Ymgynghorydd Her  
GwE, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL  
0300 500 8087 \ 07810813325  
[petermaddocks@gwe.org.uk](mailto:petermaddocks@gwe.org.uk)